George Buchanan 1506–1582

Bardd, hanesydd ac ysgolhaig

Ganwyd George Buchanan ar 1 Chwefror 1506 yn Killearn, Swydd Stirling, yn fab i'r amaethwr Thomas Buchanan ac Agnes ei briod. Ef oedd y pumed o wyth o blant. O ganlyniad i farwolaeth ei dad pan nad oedd ond saith oed treuliodd lawer o'i blentyndod yn Cardross, Swydd Dunbarton. Mae'n bur debygol ei fod yn siarad Gaeleg. Pan oedd yn bedair ar ddeg oed gadawodd addysg leol ac aeth i astudio ym Mharis. Dychwelodd i'r Alban ym 1522. Bu am gyfnod yn gwasanaethu gyda milwyr Ffrengig yn erbyn y Saeson ac yr oedd yn bresennol yng ngwarchae Wark. Enillodd radd BA yng ngholeg St Andrews ym 1525. Aeth eto i Baris am gyfnod byr i ddarlithio yn y Collège de Ste Barbe, oedd yn enwog am ei astudiaethau Groeg, ond dychwelodd i'r Alban pan benodwyd ef yn diwtor i fab Iarll Cassilis yn Swydd Ayr. Daeth hefyd yn diwtor i James Stuart, mab anghyfreithlon y Brenin Iago V.

Daeth o dan lach y Cardinal Beaton oherwydd ei ysgrifau barddonol Lladin dychanol am fynaich yn y *Somnium* a'r *Franciscantis*. Yn y cerddi hyn tynnai sylw at anonestrwydd a welid yn y mynachlogydd ac o ganlyniad fe'i carcharwyd yng Nghastell St Andrews a'i gyhuddo o fod yn heretic. (Roedd hefyd wedi bwyta cig yn ystod y Grawys ac ymhél â Lutheriaeth.) Llwyddodd i ddianc o'r fan honno ym 1539 a ffoi am ei fywyd i Lundain ac yna i Ffrainc. Fe'i penodwyd yn Athro yn y Collège de Guyenne yn Bordeaux ac yn ystod y cyfnod hwn cyfansoddodd a chyfieithodd ddramâu sef y *Baptistes*, y *Medea*, y *Jephthes* a'r *Alcestis*. Ym 1547 gwahoddodd y brenin João o Bortiwgal Andre Gouvea i fod yn brifathro coleg yn Coimbra ac aeth Buchanan yno i ddarlithio. Yn y fan honno fe dramgwyddodd y Chwilys ac fe'i caethiwyd mewn mynachlog ar gyhuddiad o fod yn heretic. Yno treuliodd ei amser yn gweithio ar gyfieithiad o Salmau Dafydd i'r Lladin. Dangosodd y gwaith hwn ei feistrolaeth lwyr o'r iaith a'i ddawn fel bardd. Wedi iddo gael ei ryddhau bu yn Lloegr am gyfnod byr ac yn Ffrainc a'r Eidal am saith mlynedd.

Pan ddychwelodd i'r Alban am y tro olaf ym 1561 fe'i penodwyd yn diwtor y clasuron i Mary Stuart, brenhines yr Alban, a hefyd yn brifathro coleg St Andrews. Yn y cyfnod hwn datganodd ei fod yn ochri gyda Phrotestaniaeth ac yn raddol trodd yn erbyn Mary Stuart. Yn wir, rhoddodd dystiolaeth yn ei herbyn mewn achos llys yn Lloegr a arweiniodd at ei dienyddiad.

Yn ystod ei oes ysgrifennodd nifer o weithiau pwysig yn Lladin yn cynnwys *De Jure Regni Apud Scotos* (1579) sef traethawd ar gyfyngiadau grymoedd brenhinol a *Rerum Scoticarum Historia* (1582) sef hanes yr Alban. Er bod ei lyfr ar hanes yr Alban yn unllygeidiog fe'i hystyrir fel ffynhonnell eithriadol o werthfawr i hanes ei gyfnod ei hun. Gan ei fod yn ysgrifennu yn Lladin yr oedd yn cael ei gydnabod fel ysgolhaig galluog trwy Ewrop gyfan.

Penodwyd ef yn diwtor i'r brenin ifanc Iago VI ym 1570 a hyd 1578 ef oedd Arglwydd y Sêl Gyfrin. Bu farw ar 28 Medi 1582 yng Nghaeredin a chladdwyd y rhan fwyaf o'i weddillion ym mynwent eglwys Greyfriars. Codwyd cofeb iddo ym 1878 a rhoddwyd ffenestr goffa iddo yn yr eglwys. Cedwir ei benglog yn amgueddfa anatomi Prifysgol Caeredin.